**Atodiad C**
**Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1**: Rydym yn bwriadu cychwyn Atodlen 3 yng Nghymru a chyflwyno'r Offerynnau Statudol cysylltiedig yn mis Mai 2018. A ydych yn cytuno bod hyn yn rhesymol? Os nad ydych, rhowch resymau.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno â'r dull hwn o weithredu mewn perthynas â threfniadau trosiannol? Os nad ydych, rhowch resymau.

**Cwestiwn 3**: Pa feysydd, os o gwbl, yn ogystal â'r rheini a restrwyd uchod, y dylai'r canllawiau ymdrin â nhw?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno â'r esemptiad arfaethedig ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol? A allwch chi gyflwyno tystiolaeth o blaid esemptiad?

**Cwestiwn 5:** Pa wybodaeth y dylai fod yn ofynnol i'r cyrff cymeradwyo SuDS ei chyflwyno fel rhan o drefn adolygu costau cymeradwyaeth gan gyrff cymeradwyo SuDS? Pa mor aml y dylid cynnal adolygiad? Unwaith y flwyddyn neu unwaith bob dwy flynedd?

**Cwestiwn 6:** Rydym yn bwriadu rhoi pwerau gorfodi i'r Corff Cymeradwyo SuDS a'r awdurdod cynllunio lleol. A ydych yn cytuno?

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno bod y pwerau mynediad arfaethedig yn rhesymol a chymesur? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 8:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r hawliad am ddigolllediad yn ymwneud â phwerau mynediad a hysbysiadau stop dros dro gael ei gyflwyno o fewn 12 mis i arfer y pwerau neu o fewn 12 mis i'r dyddiad y tynnir yr hysbysiad yn ôl / y daw ei effaith i ben. A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 9**: Rydym yn cynnig bod terfyn amser o bedair blynedd yn cael ei osod ar gyfer pryd y caiff y Corff Cymeradwyo SuDS roi hysbysiad gorfodi, fel y gwneir gyda cheisiadau cynllunio. A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 10:** A yw'r pwerau arfaethedig i ymyrryd a'r darpariaethau sy'n ymwneud â throseddau yn yr offeryn statudol drafft yn briodol a chymesur?

**Cwestiwn 11:** Rydym yn bwriadu darparu gweithdrefnau tebyg ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau gorfodi SuDS i'r rheini sy'n gymwys ar hyn o bryd i apeliadau yn erbyn camau gorfodi ym maes cynllunio (sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad). A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 12:** Rydym yn cynnig y dylid cadw cofrestr o hysbysiadau gorfodi sy'n gysylltiedig â SuDS a fydd yn adlewyrchu'r gofrestr ar gyfer hysbysiadau gorfodi ym maes cynllunio. A ydych yn cytuno?

**Cwestiwn 13:** A oes gennych unrhyw wybodaeth neu astudiaethau achos a allai helpu gyda'r canllawiau ar y mater hwn? Os oes, rhowch fanylion.

**Cwestiwn 14:** A yw ein diffiniad o system ddraenio eiddo unigol yn glir o ran yr hyn a fydd neu na fydd yn cael ei fabwysiadu? Os nad yw'n glir, rhowch ddiffiniad arall.
A allwch awgrymu enghreifftiau eraill i'w cynnwys mewn canllawiau?

**Cwestiwn 15:** Rydym yn cynnig y dylid rhoi terfyn amser o 4 wythnos i'r Corff Cymeradwyo SuDS ar gyfer prosesau gweinyddol (er enghraifft rhoi bondiau yn ôl, prosesau cofrestru neu ddynodi). Mae'r terfyn amser hwn yn gymwys drwy gydol y broses SuDS. A ydych yn cytuno â'r amserlen hon? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 16:** A oes unrhyw waith statudol arall y dylid ei gynnwys yn y rhestr hon?

**Cwestiwn 17:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r holl ymgymerwyr statudol hysbysu'r Corff Cymeradwyo SuDS o leiaf bedair wythnos cyn gwneud gwaith a allai effeithio ar weithrediad SuDS. A ydych yn cytuno â'r amserlen hon? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 18:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r Corff Cymeradwyo SuDS, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, benderfynu o fewn 12 mis a yw'n fodlon bod y SuDS yn gweithredu yn unol â'r Safonau SuDS. A ydych yn cytuno â'r amserlen hon? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 19:** Rydym yn cynnig bod yn rhaid i apêl gael ei chyflwyno cyn pen chwe mis i naill ai benderfyniad y corff cymeradwyo SuDS neu i'r dyddiad y dylai'r penderfyniad fod wedi cael ei wneud. A ydych yn cytuno?

**Cwestiwn 20:** Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu gweithdrefnau tebyg ar gyfer apeliadau SuDS i'r rheini sy'n gymwys ar hyn o bryd i apeliadau cynllunio (sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad). A ydych yn cytuno? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 21:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gofynnir i chi eu nodi yma.